

Gwella amcangyfrif PMP a PMF ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr

Roedd y prosiect hwn yn adolygu dulliau o amcangyfrif y dyodiad uchaf tebygol (PMP) a'r llifogydd uchaf tebygol (PMF) er mwyn argymhell ffordd o wella diogelwch ein cronfeydd dŵr risg uchaf.

Dogfennau

[Adroddiad ar Gam 1: cwmpasu](#)

[LIT 58205 Taenlen gyfrifo Llifogydd Uchaf Tebygol](#)

[Taenlen catalog digwyddiadau](#)

Crynodeb

Y llifogydd uchaf tebygol (PMF) yw'r gollyngiad afonol mwyaf sy'n realistig bosibl o dan amodau hinsoddol cyfredol ar gyfer dalgylch. Mae'n cael ei amcangyfrif o'r dyodiad uchaf tebygol (PMP). Y PMP yw'r dyfnder mwyaf o ddyodiad ar gyfer gyfnod penodol sy'n bosibl yn feteorolegol o dan amodau hinsoddol cyfredol ar gyfer dalgylch ar adeg benodol o'r flwyddyn.

Mae'r PMF yn cael ei ddefnyddio i wirio diogelwch yr argaeau risg uchaf yn y DU, lle gallai toriad yn yr argae beryglu bywydau mewn cymunedau i lawr yr afon. Gellir ei ddefnyddio hefyd i asesu diogelwch seilwaith risg uchel iawn arall.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r dulliau a'r data a ddefnyddir i amcangyfrif y PMP a'r PMF wedi'u diweddarau ers i'r Adroddiad Astudiaethau Llifogydd gael ei gyhoeddi ym 1975. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio cam cyntaf prosiect sy'n anelu at asesu addasrwydd dulliau ar gyfer amcangyfrif PMP a PMF. Mae hefyd yn datblygu dulliau newydd i wella diogelwch ein cronfeydd dŵr risg uchaf.

Nod Cam 1 yw adolygu opsiynau ar gyfer dulliau amgen o amcangyfrif PMP a PMF. Mae hefyd yn darparu argymhellion ar gyfer datblygiadau ymchwil yn y dyfodol, a fydd yn cymryd sawl blwyddyn i'w cyflawni.

Mae'r canlynol yn cyd-fynd â'r adroddiad:

- offeryn taenlen sy'n defnyddio'r dull cyfredol ar gyfer amcangyfrif PMF, gan gynnwys cyfrifo dŵr eira
- y catalog o ddigwyddiadau eithafol a ddefnyddiwyd yn y prosiect

Gwybodaeth am y prosiect

Rheolwyr Prosiect: Dr Sean Longfield, Dr Sarah Twohig.

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Gyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Metadata'r Prosiect

Categori

Cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd; Deall risgiau pob ffynhonnell o lifogydd

Pynciau

Hydroleg, Asesu perygl llifogydd, modelu, cronfeydd dŵr

Cod y prosiect

FRS19222

Dyddiad cychwyn:

2 Tachwedd 2020

Dyddiad cwblhau:

1 Tachwedd 2022